**Uned 17**

**Sgraffinio**

**Nodiadau'r Athro**

## Cyflwyniad

Mae'r broses sgraffinio'n un gymhleth.  Fodd bynnag, mae offer newydd wedi gwneud y dechneg yn fwy diogel.

Clefyd Milheintiol cyffwrdd-ymledol yw Orff sydd yn cael ei atal gan frechlyn a roir trwy'r dull sgraffinio.

Ar ddiwedd y sesiwn hon byddwch yn gallu:

- Egluro'r peryglon wrth drin brechlyn byw
- Disgrifio symptomau a chanlyniadau ORFF
- Egluro sut i roi'r brechlyn trwy'r dull sgraffinio

**Geiriau Allweddol**

- Sgraffinio
- Milheintiol
- Cyffwrdd-ymledol
- Orff
- Dermatitis Crawnllyd

**Adnoddau**

- Taflen Wybodaeth
- Gwefannau Perthnasol. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (*HSE*) yn ffynhonnell ragorol
- Clip Ffilm ar Sgraffinio

**Gweithgareddau dysgu i roi tystiolaeth bod dysgu wedi digwydd**

- Cwis ar Sgraffinio ac Orff